Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Dr Paul Orders
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Mawrth 2016

Annwyl Dr Orders

**Ymweliad Monitro gan Estyn 25 – 29 Ionawr 2016**

Yn dilyn canlyniad ymweliad monitro Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Chwefror 2014, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod lleol.

Cytunwyd ar gynllun o ymweliadau dilynol a chynhaliodd timau o arolygwyr ymweliadau monitro ym Mawrth a Hydref 2015. Cynhaliwyd y trydydd ymweliad monitro, sef yr un terfynol, rhwng 25 a 29 Ionawr 2016. Arweiniwyd tîm o bum arolygydd gan Huw Davies AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn pob un o'r chwe argymhelliad yn deillio o'r ymweliad monitro yn Chwefror 2014.

Cynhaliodd y tîm arolygu drafodaethau ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid a chynrychiolwyr partneriaethau. Craffodd arolygwyr ar ddogfennau gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion. Fe wnaethant ystyried deilliannau o arolygiadau Estyn o ysgolion yn yr awdurdod hefyd.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrth arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet dros addysg, cadeirydd y pwyllgor craffu, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi deilliannau'r ymweliad hwnnw.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Cyngor Caerdydd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a gododd o'r ymweliad monitro yn Chwefror 2014. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod mwyach, ac mae'n ei dynnu o weithgarwch dilynol.

---

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
ymholiadau@estyn.gov.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

**Cefndir**

Nododd yr ymweliad monitro yn Chwefror 2014 fod trosiant sylweddol wedi bod mewn swyddi uwch reolwyr, gyda chyfnodau pan nad oedd swyddi allweddol wedi eu llenwi.

Roedd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes wedi bod yn ei swydd ers pum mis. Roedd wedi egluro'r berthynas rhwng yr awdurdod a'i ysgolion ac wedi cymryd camau i herio ysgolion yn fwy trylwyr.

Ers hynny, bu cyfnod o sefydlogrwydd ac mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei wasanaeth addysg.  Mae'r cyfarwyddwr wedi ailstrwythuro'r adran ac mae bellach yn cael cymorth gan swyddi newydd, gan gynnwys cyfarwyddwr cynorthwyol, pennaeth cyflawniad a chynhwysiant a phennaeth trefniadaeth, mynediad a chynllunio ysgolion.

Mae'r prif weithredwr yn parhau i feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd i'w gwella yng ngwasanaethau addysg Caerdydd ar gyfer plant a phobl ifanc.  Mae ganddo rôl ganolog o ran cefnogi a herio'r gyfarwyddiaeth addysg.

**Argymhelliad 1:  Codi safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Ers yr ymweliad monitro yn 2014, mae perfformiad wedi gwella ar draws y cyfnodau allweddol yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gwella yn Nangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2.  Mae perfformiad yn y dangosyddion hyn wedi gwella'n gyflymach nag ar gyfer Cymru gyfan, ac yn 2015, mae uwchlaw awdurdodau tebyg, ac mae'n cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd yng Nghymru erbyn hyn.

Mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd ddiwethaf, ond yn arafach na chyfartaledd Cymru. Yn 2015, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn parhau i fod uwchlaw perfformiad awdurdodau tebyg, ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, roedd perfformiad yn y mesur hwn yn rhagori ar y meincnod ar gyfer perfformiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol.  Mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella'n dda dros y tair blynedd ddiwethaf hefyd.

Yn y prif ddangosyddion eraill yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio a throthwy lefel 2, gwnaed cynnydd cyson.  Fodd bynnag, mae perfformiad yn y mesurau hyn yn parhau islaw cyfartaledd Cymru ac mae Caerdydd wedi bod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio isaf am y tair blynedd ddiwethaf.  Nid yw'r awdurdod wedi bodloni meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio am y tair blynedd ddiwethaf.

Dirywiodd perfformiad yn nangosydd lefel un yn 2015, ac mae ymhlith y gwaethaf yng Nghymru erbyn hyn.

Yn 2015, mae perfformiad ysgolion yng Nghaerdydd yn rhy amrywiol ar draws yr ystod o ddangosyddion cyfnod allweddol 4 o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru, ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn nhrothwy lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd, mae llawer o ysgolion yn y 50% uchaf o ysgolion. Fodd bynnag, nid yw perfformiad yn y prif ddangosyddion eraill yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio, lefel 2 a lefel 1 yn gosod tua dwy o bob tair ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Mae disgyblion mwy abl wedi perfformio'n dda dros y tair blynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 4 ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r hyn sydd gyfwerth â phum gradd TGAU A*-A neu fwy wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 o gymharu â disgyblion tebyg ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r disgyblion hyn yn perfformio'n dda yn gyffredinol yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd a throthwy lefel 2. Fodd bynnag, yn 2015, dirywiodd perfformiad y disgyblion yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio a lefel 1 ac mae'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer disgyblion tebyg.

Yn 2015, ym mhob un o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 ac eithrio ar gyfer lefel 1, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yn llai yng Nghaerdydd na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad cymharol wael merched. Mae eu perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion ar draws y cyfnodau allweddol. Nodwyd hyn yn yr ymweliad monitro yn 2012, ac mae'n parhau i gael effaith negyddol ar ddeilliannau yng Nghaerdydd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn wael ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion a gefnogir gan amrediad darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn gadael gydag ychydig iawn o gymwysterau cydnabyddedig, os o gwbl.

**Argymhelliad 2: Lleihau nifer y gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cryf ac amserol i leihau cyfradd y gwaharddiadau o ysgolion.

At ei gilydd, mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau i ddisgyn. Fodd bynnag, mae amrywiadau eang yn parhau yng nghyfradd y gwaharddiadau tymor byr rhwng ysgolion uwchradd.

Ychydig iawn o waharddiadau cyfnod penodol, os o gwbl, a geir mewn llawer o ysgolion cynradd.  Pan fydd gwaharddiadau'n digwydd, maent yn gyffredinol oherwydd natur nifer fach o achosion sydd wedi digwydd mewn ychydig bach iawn o ysgolion cynradd.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol yng Nghaerdydd wedi bod yn hanesyddol isel.  Mae hyn yn parhau i fod yn wir ac yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

Mae'r awdurdod yn parhau i gymryd camau priodol i herio a chynorthwyo ysgolion ble mae lefel y gwaharddiadau yn destun pryder.  Er enghraifft, caiff yr awdurdod lleol drafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr ysgolion ynglŷn â dulliau i ymgysylltu â disgyblion, a'u cynorthwyo.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu cymorth a hyfforddiant ychwanegol i leiafrif yr ysgolion lle ceir pryderon ynghylch lefelau uchel parhaus o waharddiadau.  Mae'r awdurdod lleol wedi cynorthwyo â rhoi ymyriadau priodol ar waith.  O ganlyniad, mae nifer y gwaharddiadau mewn llawer o'r ysgolion hyn yn dechrau gostwng.

Cyflwynwyd sgrinio lleferydd ac iaith ar gyfer holl ddisgyblion y sector cynradd ac mae'r awdurdod wedi dechrau cyflwyno'r sgrinio yng nghyfnod allweddol 3.  Fodd bynnag, nid yw'r sgrinio yn gyson weithredol ar draws ysgolion uwchradd yr awdurdod.  Yn yr achosion lle mae'r sgrinio yn weithredol, dangoswyd bod anawsterau lleferydd ac iaith gan ddisgyblion a oedd fwyaf mewn perygl o gael eu gwahardd.

Mae ysgolion sydd wedi rhoi dulliau adferol ar waith yn llwyddiannus (dull rheoli ymddygiad ar gyfer datrys gwrthdaro ac atal niwed) yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad ag ysgolion targedig.  Ceir arwyddion cynnar fod y dulliau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol yn yr ysgol targedig.

Fel rhan o'i ddull pum cam o reoli gwaharddiadau, mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo cyllid i ysgolion i'w galluogi i ddarparu cwricwlwm mwy priodol a chefnogi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.  Mae hyn wedi helpu i leihau nifer y gwaharddiadau cyffredinol mewn ysgolion uwchradd.

Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi rhoi model pum cam ar waith i reoli gwaharddiadau yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn rhoi'r dull hwn ar waith yn gyson, ac mae eu cyfraddau gwahardd yn parhau i fod yn uchel.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu partneriaethau â sefydliadau lleol sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion i ffwrdd o safle'r ysgol.  Fodd bynnag, mae lefel y cyswllt sydd gan ysgolion â'r darparwyr hyn yn anghyson.  O ganlyniad, ni all ysgolion sicrhau bod y profiadau dysgu yn gweddu'n ddigon da i anghenion disgyblion neu eu bod yn gallu cyflawni deilliannau achrededig ar lefel y gallant ei chyflawni.  Mae lefel y wybodaeth sydd gan yr awdurdod ar nifer yr oriau o addysg a gaiff disgyblion, deilliannau disgyblion, presenoldeb a gwaharddiadau posibl o ddarpariaethau yn wan, ar y cyfan.  Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen ei wella.

Nododd yr ymweliad monitro yn Hydref 2015 fod rôl uwch arweinwyr mewn addysg o ran ffurfio, deall ac ysgogi'r gostyngiad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg,

cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn aneglur ac nad oedd gan yr awdurdod lleol strategaeth NACH benodol. Ers hynny, mae'r awdurdod wedi creu un strategaeth ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc a'u datblygu. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r chwe maes blaenoriaeth a amlinellir yn arweiniad Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhoi amlinelliad bras o'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd.

Yn 2015, cafodd 300 o ddisgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn NACH eu cefnogi dros dymor yr haf a thrwy'r gwyliau ysgol. Roedd pobl ifanc yn gallu manteisio ar gymorth a chyngor parhaus i'w helpu i sicrhau lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant addas. Mae'r dull hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2015 yn dangos bod nifer y bobl NACH ym Mlwyddyn 11 wedi gwaethygu rhywfaint, a bod Caerdydd yn parhau i fod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio waethaf yng Nghymru. Mae'r amrywiad yn nifer y bobl NACH ar draws ysgolion yn parhau i fod yn rhy fawr.

Er mwyn gwella cyrchfannau ar gyfer plant sy'n cael gofal, mae'r awdurdod wedi rhoi rhaglen i hyfforddeion ar waith yn ddiweddar. Nod y rhaglen yw darparu medrau a chymwysterau newydd ar gyfer plant sy'n cael gofal. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y cynllun hwn ar ddeilliannau a chyrchfannau plant sy'n cael gofal.

Mae pob ysgol uwchradd yn defnyddio'r proffil i asesu pa mor agored i niwed yw disgyblion, ac estynnwyd hyn i'r uned cyfeirio disgyblion a'r ysgolion arbennig. Mae'r proffil yn cynorthwyo ysgolion o ran nodi disgyblion sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH.

Mae pob un o'r disgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) bellach yn dilyn cyrsiau rhagflas gyda darparwyr lleol, ac fe gânt wybodaeth a chymorth o ran cyfleoedd cam nesaf. Mae hyn wedi gwella rhywfaint ar y cyrchfannau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae canran gyffredinol y disgyblion NACH o ysgol arbennig yr awdurdod ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a darpariaeth EOTAS yn llawer rhy uchel.

Yn Hydref 2015, fe adroddom ni fod gwybodaeth berthnasol am ddata gwaharddiadau ysgolion a phobl NACH yn cael ei rhoi i ymgynghorwyr her y consortia rhanbarthol ond nad yw pob ymgynghorydd her yn trafod pryderon ynghylch gwaharddiadau neu bobl NACH gyda'u hysgolion. Mae'r agwedd hon ar waith yr ymgynghorwyr her gydag ysgolion yn dechrau gwella.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio a chefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

At ei gilydd, mae ysgolion Caerdydd yn cael eu herio'n fwy trylwyr ac yn cael eu cefnogi'n fwy effeithiol i wella. Gwnaed gwelliannau yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion deilliannau ym mhob cyfnod allweddol, er bod perfformiad yn rhai o ysgolion uwchradd Caerdydd yn destun pryder sylweddol o hyd.

Mae gwaith y gwasanaeth gwella ysgolion a gomisiynwyd gan y consortiwm rhanbarthol wedi'i seilio ar flaenoriaethau clir a dealltwriaeth dda o ysgolion Caerdydd. Ers yr ymweliad monitro yn 2014, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda gyda'i ysgolion i ymgysylltu ag arweinwyr ysgol a datblygu newid mewn diwylliant lle mae ysgolion yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol yn datblygu dealltwriaeth dda o'i ysgolion. Mae cyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol ac arweinwyr ysgol yn agored, yn onest a chynhyrchiol. Mae defnydd gwell o ddata yn galluogi'r awdurdod i olrhain cynnydd disgyblion mewn ysgolion ac ar draws y ddinas, a nodi'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae rhannu'r data hwn ar draws pob ysgol wedi helpu i godi disgwyliadau a datblygu atebolrwydd gwell, er nad oes digon o bwyslais ar ddadansoddi perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft merched, a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Ceir perthynas weithio gref rhwng yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r awdurdod lleol wedi safoni deilliannau categoreiddio mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol, ac mae hyn wedi arwain at gael golwg fwy cywir ar berfformiad ysgolion, model gwell o gymorth a her wahaniaethol, ac ymyrraeth gynnar mewn ysgolion sy'n destun pryder.

Mae'r ddau uwch ymgynghorydd her yn cefnogi gwaith ymgynghorwyr her yn dda. Mae rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd gwaith yr ymgynghorwyr her yn fwy systematig erbyn hyn, ac mae'r awdurdod wedi cymryd camau cadarn i wella arfer lle nodir tanberfformio. Mae uwch ymgynghorwyr her yn cynnal ymweliadau ar y cyd ag ymgynghorwyr her ag ysgolion i werthuso ansawdd gwaith ymgynghorwyr her. Ceir prosesau cadarn i sicrhau ansawdd adroddiadau ymgynghorwyr her, ac mae hyn wedi arwain at welliant yng nghysondeb a thra-chywiredd eu hadroddiadau. Mae prosesau i ddilysu barnau trwy gasglu tystiolaeth uniongyrchol yn gwella, ac mae hyn yn dechrau rhoi arfarniad mwy cywir i'r awdurdod o'u hysgolion. Trwy gyfarfodydd gwella ysgolion, mae ymgynghorwyr her yn datblygu dealltwriaeth well o rôl gwasanaethau ehangach yn yr awdurdod lleol o ran gwella ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi mireinio ei brosesau ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â thanberfformiad yn gynharach ac yn fwy systematig. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn dwyn penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr i gyfrif yn dda am gynnydd eu hysgol trwy raglen o gyfarfodydd adolygu perfformiad bob hanner tymor neu bob tymor. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n addas ar ddeilliannau disgyblion ac arweinyddiaeth ysgolion. Mae gan yr awdurdod lleol fecanweithiau defnyddiol iawn i godi materion gydag arweinwyr yn y gyfarwyddiaeth addysg, fel y gellir gweithredu'n gyflym, gan gynnwys defnyddio pwerau statudol, lle nad yw ysgolion yn gwneud digon o gynnydd.

Yn 2014-2015, cyhoeddodd yr awdurdod lleol bum hysbysiad rhybudd statudol ac wyth llythyr yn mynegi pryder i ysgolion. Rhoddodd y llythyrau hyn amlinelliad clir o'r disgwyliadau ar gyfer gwella. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio ei bwerau ymyrraeth mewn pum ysgol. Fe wnaeth y rhain gryfhau trefniadau i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio, ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth, safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion. Gwelwyd

gwelliant mewn deilliannau mewn deg o’r pymtheg ysgol a gafodd hysbysiad rhybudd neu lythyr yn mynegi pryder, neu ble cymerwyd camau ymyrryd ffurfiol.

Mae’r awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o ddulliau i wella’i ysgolion sy’n tanberfformio. Mae’n dechrau rhoi strategaethau ar waith i wella ansawdd yr arweinyddiaeth, y ddarpariaeth, yr addysgu a’r dysgu yn fwy cynaliadwy ar draws yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, mae strategaethau cymorth sy’n canolbwyntio ar berfformiad disgyblion yn canolbwyntio’n ormodol o hyd ar ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd mewn perygl o beidio ag ennill eu cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae’r awdurdod lleol yn gweithio’n gynhyrchiol gyda’i gonsortiwm rhanbarthol i fynd i’r afael ag anghenion penodol ysgolion Caerdydd, a hyrwyddo gweithio o ysgol i ysgol. Mae rhai o ysgolion Caerdydd yn gweithredu fel canolfannau i ledaenu arfer dda a darparu cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio ar draws y consortiwm. Mae grwpiau gwella ysgolion (GGYau) o athrawon ac arweinwyr ar draws y rhanbarth yn gweithio ar faterion gwella pwysig, ac mae’r grwpiau hyn yn canolbwyntio’n dda ar arfarnu eu gwaith o ran deilliannau ar gyfer disgyblion.

Yn ddiweddar, mewn ysgolion sydd wedi’u categoreiddio’n ysgolion effeithiol, mae system adolygu cymheiriaid yn datblygu. Mae’r broses hon yn hwyluso rhannu arfer dda ac mae’n datblygu medrau’r penaethiaid sy’n cymryd rhan.

Mae’r awdurdod lleol wedi comisiynu’r consortiwm rhanbarthol i gyflwyno ystod gynhwysfawr o raglenni datblygu arweinyddiaeth i fynd i’r afael yn benodol â materion arweinyddiaeth ar draws ei ysgolion. Mae’r rhain yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer darpar arweinwyr, arweinwyr canol, penaethiaid mewn cyfnodau amrywiol o’u gyrfaoedd, a datblygiad ar gyfer yr arweinwyr hynny sy’n gallu cynorthwyo penaethiaid eraill, neu sy’n arwain mwy nag un ysgol. Mae’n rhy gynnar i farnu effaith y rhaglenni hyn.

Mae prosesau ar gyfer cryfhau llywodraethu ysgolion yn datblygu’n dda. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer llywodraethwyr ei ysgolion sy’n tanberfformio. Mae’r cyngor wedi diwygio’r broses ar gyfer penodi llywodraethwyr awdurdod lleol ac mae wedi trefnu ystod eang o bartneriaethau a busnesau yn y ddinas i nodi a defnyddio llywodraethwyr sy’n gallu cefnogi eu hysgolion yn well. Mewn ysgolion lle mae llywodraethu’n wan iawn, mae’r consortiwm rhanbarthol wedi recriwtio nifer o lywodraethwyr profiadol i weithredu fel llywodraethwyr ymgynghorol i weithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr her i gefnogi’r corff llywodraethol.

At ei gilydd, mae ysgolion yng Nghaerdydd yn dod yn fwy gwydn ac maent yn dangos gallu gwell ar gyfer gwella. Ers yr ymweliad monitro yn 2014, bu cynnydd yn nifer yr ysgolion sy’n perfformio orau, a gostyngiad yn nifer yr ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, fel y pennwyd gan y model cenedlaethol categoreiddio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw perfformiad ysgolion yng nghyfnod allweddol 4 ar lefel 1 a lefel 2, ac yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio, wedi gwella’n ddigonol.

**Argymhelliad 4: Gwella effeithiolrwydd cynllunio ar y cyd ar draws ystod o weithio mewn partneriaeth**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid i resymoli cynllunio ar y cyd ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'r strwythurau sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth wedi cael eu diwygio, ac mae rhagor o newidiadau ar y gweill. Mae'r strwythurau diwygiedig yn cynnwys byrddau rheoli, pwyllgorau gweithredol a gweithdrefnau cynllunio ar y cyd. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau gwella cydweithio ar draws ffiniau sefydliadol, i gydgyfrannu adnoddau ac alinio gwasanaethau yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ddinas.

Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer cynllunio a gweithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion addysg a chymorth plant a phobl ifanc ar sail y blaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun integredig sengl 'What Matters'. Defnyddir y cynllun hwn yn dda i lywio cynllunio ar draws y byrddau partneriaeth amrywiol.

Mae'r Bwrdd Datblygu Addysg a'r Bwrdd Rhaglen Plant a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed yn datblygu strategaethau clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cyffredin eglur. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys gwella gwasanaethau i blant anabl a theuluoedd sy'n agored i niwed, ymyrraeth gynnar a gwaith atal, gwasanaethau i gynorthwyo iechyd emosiynol a meddwl pobl ifanc, a dulliau corfforaethol o ddiogelu. O ganlyniad i'r strategaethau hyn, ceir cydweithio rhwng rhaglenni partneriaeth fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chymorth Integredig i Deuluoedd, i gyfrannu tuag at bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad gwell pobl ifanc mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r her yn parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant.

Mae gwaith y chwe phartneriaeth cymdogaeth yng Nghaerdydd wedi gwella gallu'r awdurdod i gynnig gwasanaethau amlasiantaethol a gyflwynir yn lleol ac sy'n fwy effeithlon. Mae'r partneriaethau cymdogaeth hyn yn elfen allweddol wrth nodi pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu gwasanaeth ymyrraeth ac atal cynnar cyn i anghenion fynd yn fwy dwys a bod angen ymyriadau mwy costus gan wasanaethau arbenigol. Nodwedd bwysig yw'r defnydd gwell o ddata deilliannau i arfarnu effeithiolrwydd y gwasanaeth a gyflwynir, er enghraifft trwy fesur y cynnydd mewn presenoldeb ysgolion, mesur cyrhaeddiad gwasanaethau cymorth, ac arfarnu deilliannau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau yn y gymdogaeth. Mae'r dull hwn yn helpu swyddogion i resymoli a nodi bylchau mewn darpariaeth a lleihau dyblygu.

Yn hanesyddol, rhwystr pwysig rhag cydweithio effeithlon fu'r diffyg gwybodaeth effeithiol yn rhannu polisïau a phrotocolau. Rhoddwyd y Strategaeth Cymorth Cynnar ar waith i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y strategaeth hon.

Mae cysylltiadau a pherthnasoedd gweithio llawer gwell rhwng swyddogion ac ysgolion sydd wedi eu seilio ar ddealltwriaeth well o'u rolau priodol, disgwyliadau ac

atebolrwydd ar y ddwy ochr. Mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori ag ysgolion gydag effeithiolrwydd cynyddol, sydd wedi arwain at ymgysylltu gwell rhwng yr awdurdod a'i ysgolion. Mae penaethiaid yn ystyried eu bod yn cael eu hysbysu'n well, maent yn cymryd rhan mewn deialog adeiladol gyda swyddogion ac yn cyfrannu'n fwy uniongyrchol at nodi blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Mae pwyslais cryf ac ymrwymiad ar y cyd i ddatblygu gallu ysgolion yng Nghaerdydd i arwain a chefnogi eu gwelliant eu hunain.

Mae'r Bwrdd Datblygu Addysg wedi datblygu gwaith partneriaeth effeithiol gyda sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach a'r gymuned busnes a menter. Mae hyn wedi helpu i ehangu'r cwricwlwm ar gyfer rhai disgyblion ysgol uwchradd, gwella cyfleoedd addysgol a chyflogaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-16 a gwella galluoedd cyrff llywodraethol.

Menter hynod werthfawr gan y Bwrdd Cymuned Ddiogel a Chydlynol fu'r bartneriaeth gyda Prevent, sef strategaeth gan y Swyddfa Gartref i atal pobl rhag cael eu radicaleiddio a'u denu at derfysgaeth. O ganlyniad, mae ysgolion wedi ymgymryd â hyfforddiant codi ymwybyddiaeth. Mae pob ysgol uwchradd wedi cyflwyno'r cwricwlwm 'cyd-dynnu', sy'n herio pob math o eithafiaeth ac yn helpu i wella cydlyniad cymunedol yn y ddinas. Mae'r gwaith hwn yn helpu i lywio arfer ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r awdurdod lleol yn ad-drefnu ei ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar hyn o bryd, yn dilyn ymgynghori â phobl ifanc, byrddau cymdogaeth, a darparwyr y sector gwirfoddol yng Nghaerdydd. Caiff yr ad-drefnu ei adeiladu o amgylch gwaith partneriaeth cynyddol rhwng yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol er mwyn cyflwyno Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, a'i Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith yr ad-drefnu hwn ar wasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghaerdydd.

**Argymhelliad 5: Gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae prosesau rheoli perfformiad yn yr awdurdod lleol wedi gwella. Erbyn hyn, mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth well o'i berfformiad presennol o fewn gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc, a'i gynnydd o ran bodloni amcanion a amlinellwyd mewn cynlluniau corfforaethol a chyfarwyddiaeth.

Mae'r broses rheoli perfformiad chwarterol yn sicrhau bod her gref i adroddiad perfformiad chwarterol y cyfarwyddwr.

Mae'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes yn darparu adroddiadau chwarterol ar berfformiad i'r cabinet a'r pwyllgor craffu. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos cysylltiadau â blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth yn briodol, yn ogystal â chynnydd yn erbyn heriau a nodwyd yn y chwarter blaenorol. Yn ychwanegol, maent yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd yn erbyn cynllun cyflwyno'r gyfarwyddiaeth ac yn cynnwys gwybodaeth addas am y prif risgiau, ynghyd â chamau lliniaru priodol.

Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r 'Siambr Seren' cyn cael eu hystyried yn ffurfiol gan y cabinet a'r pwyllgor craffu. Mae'r prif weithredwr, arweinydd y cyngor, cyfarwyddwyr perthnasol, yr aelod cabinet dros wasanaethau corfforaethol a pherfformiad a phersonél perthnasol eraill yn mynychu cyfarfodydd y 'Siambr Seren'. Yn ystod cyfarfodydd y 'Siambr Seren', caiff y cyfarwyddwr ei herio mewn perthynas â materion a nodwyd yn yr adroddiad, a chytunir ar gamau addas. O ganlyniad, mae adroddiadau perfformiad chwarterol yn fwy trylwyr ac mae eu defnyddioldeb wedi gwella.

Cyflwynir yr adroddiadau perfformiad chwarterol i Fforwm Her Caerdydd hefyd. Sefydlwyd y fforwm hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau gwelliant cyflym i wasanaethau unigol dethol, gan gynnwys addysg, a gallu gwelliant corfforaethol cyffredinol y Cyngor. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod bob chwarter ac yn darparu her a chymorth priodol.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn realistig a chywir yn y ffordd y mae'n arfarnu perfformiad ysgolion. Mae'n darparu sylwebaeth ddefnyddiol ar berfformiad ac yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella ymhellach. Mae'r atodiadau yn cyflwyno dadansoddiadau defnyddiol a chytbwys o berfformiad ar draws yr awdurdod.

Mae adroddiadau eraill ar berfformiad, gan gynnwys yr adroddiad hunanarfarnu, yn darparu manylion defnyddiol am y gwahanol wasanaethau addysg, gan gynnwys cynnydd yn erbyn penawdau dangosyddion ansawdd Estyn. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gyffredinol yn disgrifio'r camau a gymerwyd yn hytrach na pha mor dda y cynhaliwyd y camau hynny a'u heffaith. Nid ydynt yn darparu digon o dystiolaeth i gefnogi haeriadau. Hefyd, nid yw'r meysydd i'w gwella yn ddigon clir i allu pennu ystod addas o gamau priodol.

Yn 2014-2015, cyflwynodd yr awdurdod broses diwygiedig i adolygu perfformiad a datblygiad personol (PPDR) ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae bron pob un o'r staff wedi cael eu cynnwys yn y broses hon. Nid yw amcanion perfformiad ar gyfer aelodau o staff yn y gyfarwyddiaeth yn cysylltu'n ddigon clir â blaenoriaethau tîm, cyfarwyddiaeth neu gorfforaethol. Nid yw'r targedau a osodir ar gyfer unigolion yn gyson fesuradwy, yn ddigon uchelgeisiol nac yn briodol i allu sicrhau bod perfformiad yn cael ei asesu'n drylwyr.

**Argymhelliad 6: Gwella'r craffu ar wasanaethau addysg awdurdodau lleol a gweithio mewn partneriaeth**

**Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod wedi ymateb yn dda i'r argymhelliad hwn mewn modd amserol a phriodol. Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i strwythur a chyfrifoldebau'r pwyllgor craffu. Mae pum pwyllgor craffu erbyn hyn, ac mae pob un ohonynt yn gyfrifol am graffu ar waith partneriaeth a'i effaith, yn ei raglen waith briodol. Mae rhaglen waith y pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn briodol yn cynnwys trefniadau ar gyfer craffu ar yr holl wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gyflwynir trwy leoliadau cymunedol a thrwy ysgolion.

Mae'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn gynyddol effeithiol.  Mae'r pwyllgor wedi cytuno ar fframwaith i roi cyfleodd datblygu a hyfforddi strwythuredig i aelodau'r pwyllgor.  Mae'r hyfforddiant hwn wedi helpu aelodau craffu i wella eu dealltwriaeth o'r materion yn ymwneud â chyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc, a sut i ddehongli'r setiau data a ddefnyddir gan swyddogion addysg ac ysgolion i olrhain deilliannau.

Mae'r pwyllgor wedi rhoi nifer o gamau ar waith i reoli ei ystod o ddyletswyddau a maint ei agenda yn well.  Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen o sesiynau cyn-cyfarfodydd a briffiau, yn ogystal â phaneli monitro sy'n edrych yn benodol ar adroddiadau ar gyllidebau a pherfformiad.  Mae'r sesiynau cyn-cyfarfodydd a'r paneli hyn yn galluogi'r aelodau i nodi trywyddau ymholi clir ar gyfer gweithgarwch dilynol mewn cyfarfodydd pwyllgor.  Mae'r newidiadau hyn wedi helpu'r pwyllgor craffu i fod â mwy o ffocws.

Mae'r pwyllgor yn gwneud defnydd da o grwpiau gorchwyl a gorffen hefyd i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd yn fanylach a chynhyrchu adroddiadau ar gyfer y pwyllgor craffu ehangach.  Mae'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn gweithio'n dda.  Mae eu canfyddiadau, er enghraifft, wedi arwain at welliannau yn y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn penodi ei lywodraethwyr ysgol ac mae'n paru setiau medrau llywodraethwyr gydag anghenion corff llywodraethol.

Yn dilyn pob cyfarfod craffu, mae'r cadeirydd yn ysgrifennu at yr aelod cabinet yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion o'r cyfarfod, ac mae'r rhain yn glir a heriol, ar y cyfan.  Er enghraifft, yn dilyn y grŵp gorchwyl a gorffen, a gyfarfu â phenaethiaid o ysgolion wedi eu categoreiddio'n goch, roedd llythyr y cadeirydd craffu yn cynnwys heriau ac argymhellion i'r adran addysg a'r consortiwm rhanbarthol.  Fodd bynnag, nid yw'r llythyr yn cynnwys unrhyw heriau nac argymhellion i'r ysgolion yr oeddent yn craffu arnynt.

**Y camau nesaf**

Mae Cyngor Caerdydd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y cyfan ers yr ymweliad monitro yn Chwefror 2014.

Mae angen rhoi sylw arbennig i feysydd pwysig yn yr adroddiad hwn, er enghraifft:

- Gwella perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio, trothwy lefel 2 a lefel 1
- Gwella canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Gwella'r wybodaeth sydd gan yr awdurdod am raddau ac ansawdd y ddarpariaeth a wna ysgolion ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu i ffwrdd o safle'r ysgol
- Sicrhau bod hunanarfarniad yr awdurdod lleol yn arfarnu effaith y camau a gymerwyd
- Sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gweithredu addas

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau i gefnogi a herio'r awdurdod fel rhan o'u rôl gyswllt arferol.

Estyn

Bydd Estyn yn gwneud trefniadau i drafod canfyddiadau'r ymweliad hwn gyda'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cc: Llywodraeth Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru